**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Digwyddiadau a gynhaliwyd ar**

**2 Mawrth 2023**

**Yng Nghanolfan Gymunedol Rhuddlan**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Kermode (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)
Y Cynghorydd Val Simmons
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Roedd sawl aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn cynrychioli rhai o grwpiau cymunedol gwirfoddol Rhuddlan. Gweler y rhestr isod.
Clwb Bowlio Rhuddlan, Cymdeithas Rhandiroedd Rhuddlan.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd iddynt gyflwyno eu hunain.

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Roedd sawl grŵp cymunedol wedi anfon eu hymddiheuriadau hefyd ac maent wedi'u nodi isod, er nad yw'n ofynnol cynnwys eu henwau yn y cofnodion gan nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor digwyddiadau.
Sue Butterworth, Gill Price Grŵp Cyfeillgarwch Rhuddlan, Roy Price Canolfan Gymunedol Rhuddlan, Dave Roberts Clwb Pêl-droed y Dreigiau / Dragons FC a Ffion White Bespoke Events.

**2. Datgan Buddiant**
Y Cynghorydd Mike Elgin – Clwb Bowlio Rhuddlan, eitem 5.

**3. Cofnodion**
Adolygwyd cofnodion y 3 chyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022, 24 Ionawr 2023 (2 gyfarfod). Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

**4. Materion yn Codi**
Derbyniwyd rhestr o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan Cadw yng Nghastell Rhuddlan.

Er bod Cadw wedi darparu arolwg yn ymwneud â’r materion strwythurol yn gysylltiedig â’r polion fflag, nodwyd bod yr Arglwydd Langford wedi dangos diddordeb mawr yn hyn a’i fod yn gobeithio datrys y materion gyda Cadw. Y dewis arall yw gosod polion fflag newydd ar y ddaear.
Dywedodd y Clerc fod CSDd wedi rhoi caniatâd i roi baneri ar hyd y polion lamp, ond ddim i groesi’r briffordd. Mae wedi bod yn holi am gwmnïau all wneud hyn ar ran Cyngor y Dref ond mae’n waith drud felly mae bellach yn ystyried prynu baneri a chyflogi contractwr i osod y baneri yn unig.
Dywedodd y Cynghorydd Mike Kermode wrth y cyfarfod fod croeso cynnes i’r cynrychiolwyr cymunedol a oedd yn y cyfarfod, roedd hawl ganddynt i gyfrannu at y drafodaeth ond nid oedd hawl ganddynt i bleidleisio ar unrhyw benderfyniadau. Gwnaeth hefyd atgoffa pawb fod gan y pwyllgor gyllideb benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau yn Rhuddlan yn ystod 2023.

**5. Penwythnos y Coroni**
Gofynnodd y pwyllgor i’r gwahanol grwpiau roi diweddariad am eu gweithgareddau unigol ac i ddarparu unrhyw wybodaeth i gefnogi eu cais am gymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau’r penwythnos.
*Clwb Bowlio Rhuddlan* – Roedd y Cynghorydd Mike Elgin eisoes wedi datgan buddiant fel aelod o’r grŵp. Mae’r cais am gyfanswm o £792.80 i dalu am gril barbeciw a chyflenwadau arlwyo. Roedd nifer o weithgareddau wedi’u cynllunio, gan gynnwys cystadleuaeth gwisg ffansi Brenin a Brenhines, cystadleuaeth bowlio hwyliog i oedolion a phlant, cystadleuaeth lliwio i blant, ac o bosibl band yn gorymdeithio i agor y digwyddiad.
Cymeradwyodd y pwyllgor roi cymorth ariannol o £792.80. **Penderfynwyd**
Atgoffwyd y clwb petai’r band gorymdeithio yn cymryd rhan, yna gellid gwneud cais am ragor o gyllid os oedd ei angen.
Cynhelir y digwyddiad hwn ddydd Llun, 8 Mai
*Grŵp Cyfeillgarwch Rhuddlan* – Roedd y cais am gyfanswm o £450 i dalu am barcio am ddim ym maes parcio Stryd y Senedd, hysbysebion, baneri, addurno’r ganolfan, gweithgareddau i oedolion a phlant e.e. y goron orau, y wisg coch, gwyn a glas orau, ac yn olaf presenoldeb y Maer.
Cymeradwyodd y pwyllgor roi cymorth ariannol o £450. **Penderfynwyd**.
Cytunodd y pwyllgor i ofyn i Gyngor Tref Rhuddlan gymeradwyo un o’r 5 dyddiau parcio am ddim, ddydd Sul 7 Mai. **Penderfynwyd**.
Cynhelir y digwyddiad hwn ddydd Sul, 7 Mai
*Cymdeithas Rhandiroedd Rhuddlan* – Roedd y cais am gyfanswm o £200 i dalu am gost anrhegion ar gyfer cystadleuaeth bwgan brain a lluniaeth. Roedd y gymdeithas hefyd yn gofyn am ganiatâd Cyngor i Dref i godi pabell i werthu planhigion. Cafodd y caniatâd ei roi.
Yn ystod y drafodaeth, penderfynwyd y byddai costau unrhyw wobrau a roddir yn ystod digwyddiadau yn cael eu talu gan Gyngor y Dref, yn ychwanegol at y cais ffurfiol, ar yr amod bod yr holl grwpiau yn cytuno er cysondeb i roi £25 am wobr 1af, £15 am 2il wobr ym mhob categori a grŵp oedran.
Felly cymeradwyodd y pwyllgor roi cymorth ariannol o £100 i dalu am luniaeth a’r gwobrau ariannol fel y nodwyd uchod. **Penderfynwyd.**

Yn yr achos hwn byddai'r wobr ariannol yn £25 ar gyfer y bwgan brain buddugol i oedolion, , £15 am yr 2il wobr, a £25 ar gyfer y bwgan brain buddugol yng nghategori'r plant, £15 ar gyfer yr 2il wobr, gan wneud cyfanswm o £80.
Cynhelir y digwyddiad hwn ddydd Llun, 8 Mai.
*Eglwys y Santes Fair* – Roedd y cais ar gyfer cyfanswm o £865.50 ar gyfer byrddau arddangos, byrddau, band, lluniaeth a gwobrau gwahanol gystadlaethau. Nodwyd y bydd yr eitemau uchod yn cael eu defnyddio yn y dyfodol gan fod yr eglwys yn tynnu'r corau ar hyn o bryd i ddarparu ardal agored hyblyg.
Cymeradwyodd y pwyllgor roi cymorth ariannol o £865.50. **Penderfynwyd**.
Cynhelir y digwyddiad hwn ddydd Sul, 7 Mai.
*Cymdeithas Hanes Rhuddlan* – Reodd y cais ar gyfer cyfanswm o £100 ar gyfer lluniaeth, hysbysebu a chostau gweinyddol i gynnal 4 diwrnod o weithgareddau ar 5, 12, 19 a 26 Mai ac i ddysgu preswylwyr am hanes cyfoethog Rhuddlan, arddangosfa o arteffactau lleol, a chynorthwyo pobl i hel achau ac ymchwilio i hanes eu teulu.
Cymeradwyodd y pwyllgor roi cymorth ariannol o £100. **Penderfynwyd**.
*Clwb Pêl-droed y Dreigiau / Dragons FC* – Roedd y cais ar gyfer cyfanswm o £475 ar gyfer llogi cae pêl-droed llawn gwynt, cwrs rhwystrau a chastell gwynt.
Cymeradwyodd y pwyllgor roi'r cymorth ariannol o £475. **Penderfynwyd**.
Cytunodd y pwyllgor hefyd os cynhelir cystadleuaeth bêl-droed, bydd Cyngor y Dref yn rhoi gwobrau ariannol o'r un symiau â'r ddwy gystadleuaeth arall.

Bydd Cyngor y Dref yn hysbysebu'r gwahanol ddigwyddiadau fel penwythnos cyfan drwy ddefnyddio sawl dull, gan gynnwys dosbarthu taflenni a'r cyfryngau cymdeithasol ond byddai angen i'r holl wybodaeth am y digwyddiad fod yn barod erbyn diwedd mis Mawrth i'w gasglu ynghyd yn barod ar gyfer argraffu erbyn diwedd mis Ebrill.

Diolchodd y Cynghorydd Mike Kermode i'r gwahanol grwpiau am eu brwdfrydedd ac am gymryd rhan yn nigwyddiadau penwythnos Coroni'r Brenin.

**6. Gŵyl Gwledd**
Rhoddodd y Cynghorydd Kermode ddiweddariad i'r cyngor am gynnydd yr ŵyl a gynhelir ar 20 Mai 2023 yn y ganolfan gymunedol ac ar faes parcio Stryd y Senedd. Mae Cyngor y Dref wedi cyflogi trefnydd digwyddiadau proffesiynol i gyflawni'r gwaith. Mae 40 o arddangoswyr eisoes wedi cadarnhau eu bod yn cymryd rhan ac mae 10 lle ar ôl, mae tri band wedi cael eu harchebu, consuriwr, a sesiwn blasu ioga. Gwahoddir grwpiau cymunedol i gymryd rhan a gallant gael stondin am ddim os ydynt yn dymuno. Roedd y grŵp MS lleol wedi gofyn am gael stondin a chytunodd y pwyllgor. **Penderfynwyd.**

**7. Digwyddiadau Posibl yn y Dyfodol**
Roedd y pwyllgor yn awyddus i atgoffa'r grwpiau cymunedol petai grŵp yn dymuno trefnu digwyddiadau eraill yn ystod 2023 yna gallent ofyn i Gyngor y Dref am gymorth, neu os oeddynt yn dymuno cynnal digwyddiad ychwanegol ar benwythnos Coroni'r Brenin.

- Cynhelir y digwyddiad cyhoeddus i agor yr Hwb ddydd Sadwrn, 4 Mawrth, rhwng 11am ac 1pm.
- Yna clywodd y pwyllgor am sawl digwyddiad fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol yn Rhuddlan.
- Mae'r Grŵp Dementia yn cynnal Dawns ar 29 Ebrill, sef wythnos cyn penwythnos y coroni. Pris mynediad fydd £5
- Gofynnodd y pwyllgor i'r grwpiau hynny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol gan Gyngor y Dref i nodi'r ffaith hwnnw ar unrhyw hysbysebion.
- Roedd y Cynghorydd Mike Elgin yn awyddus i gyfarfod CADW i'w gwneud yn ymwybodol o'r potensial i weithio gyda'i gilydd ar ddigwyddiadau anfasnachol y gallent fod yn eu hystyried yn y dyfodol.

**Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Digwyddiadau ddydd Mawrth, 18 Ebrill a dydd Mawrth 16 Mai am 7pm – y lleoliad i'w gadarnhau.**